**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Mehefin 2017

Annwyl Simon

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mai ynghylch y gwaith pellach a wnaed gan eich Pwyllgor wrth graffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18 ar 17 Mai 2017. Mae'n bleser gennyf ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn eich llythyr.

Gofynnwyd am:

- ddadansoddiad manwl o sut yn union y defnyddiwyd yr £1.185 miliwn a nodwyd ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r llawr daear ar gyfer y prosiect hwn;
- pa gostau pellach sydd wedi'u hysgwyddo, neu a gaiff eu hysgwyddo, yn sgil adnewyddu'r llawr daear, a faint o'r arian hwnnw sydd eisoes wedi'i ddyrannu i'r prosiect hwn o gyllideb 2017-18; a
- manylion ychwanegol am y tanwariant a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2017-18, a sut y disgwylir defnyddio'r arian hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Mae ymatebion manwl i'r cwestiynau hyn yn Atodiad A ac yn cynnwys y canlynol:

- Mae Tabl A yn rhoi manylion y costau gwirioneddol ar gyfer 2016-17 ochr yn ochr â'r amcangyfrif o gostau a ddarparwyd yn flaenorol yn fy llythyr dyddiedig 28 Mawrth 2017;
- Mae Tabl B yn rhoi dadansoddiad o sut yn union y defnyddiwyd yr £1.185 miliwn (amcangyfrif), a neilltuwyd ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r llawr daear, a nodwyd yn ein llythyr dyddiedig 28 Mawrth i dalu am y prosiect hwn. Y costau gwirioneddol ar gyfer 2016-17 oedd £1.211 miliwn;
- Mae Tabl B hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gostau pellach sydd wedi'u hysgwyddo yn sgil y gwaith o adnewyddu'r llawr daear yn ystod 2017-18 a gwariant arall ar y llawr daear gan gynnwys TGCh; ac
- Mae Tabl C yn rhoi manylion am y tanwariant a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2017-18 a sut y disgwylir defnyddio'r arian hwn. Mae'r tabl yn dangos bod yr holl waith a wnaed wrth adnewyddu'r llawr daear yn ystod 2017-18 wedi cael ei neilltuo dros dro fel gwaith a ariannwyd o danwariant y penderfyniad ar gyfer 2017-18.

O ran defnyddio tanwariant o Benderfyniad y Bwrdd Taliadau a chyllidebau eraill i ariannu buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio a buddsoddiad sydd wedi'i flaenoriaethu, bu'r Comisiwn yn trafod eich llythyr yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin. Mae'r Comisiynwyr yn parhau i gredu mai ein bod yn defnyddio’r dull mwyaf darbodus a chadarn o reoli cronfeydd y Comisiwn er lles y Cynulliad fel yr amlinellwyd yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 28 Mawrth.

Wedi dweud hynny, mae'n gwbl gywir bod eich Pwyllgor yn craffu ar ein gwaith ac yn herio sut yr ydym yn rheoli'r cronfeydd a ymddiriedir i ni gan y Cynulliad. Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth sydd ynghlwm yn ddefnyddiol ac rydym yn croesawu'r cyfle i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod y mater hwn ymhellach.

Unwaith eto, os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, rhowch wybod i mi.

Yn gywir



Suzy Davies

cc Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Atodiad A**

Roedd fy llythyr dyddiedig 28 Mawrth 2017 yn cynnwys detholiad o Dabl A isod ac yn darparu amcangyfrif o'r tanwariant a ragwelwyd (£1.954 miliwn) o ran yr arian a dynnwyd i lawr i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio yn ystod 2016-17.

Mae colofn (b) yn rhoi gwybodaeth am sut y defnyddiwyd y tanwariant gwirioneddol (£1.705 miliwn), a oedd yn is na'r hyn a ragwelwyd yn rhagolwg mis Mawrth (£1.954 miliwn).

**Tabl A – Defnyddio Tanwariant y Penderfyniad ar gyfer 2016-17**

| **Disgrifiad** | **Rhagolwg mis Mawrth (a)** | **Yr hyn a ariannwyd gan y Tanwariant (b)** |
|---|---|---|
| | | |
| Adnewyddu'r Llawr Daear | £1.185 miliwn | £1.211 miliwn |
| TGCh Ystafelloedd Pwyllgora | £0.202 miliwn | £0.224 miliwn |
| Prosiect y Swyddfa Gyflwyno | £0.048 miliwn | £0.048 miliwn |
| Prosiect Cofnod y Trafodion | £0.078 miliwn | £0.078 miliwn |
| Gwella diogelwch swyddfeydd etholaethol yr Aelodau | £0.040 miliwn | £0.048 miliwn |
| Gwydnwch pŵer gwell | £0.140 miliwn | £0.140 miliwn |
| Gorffen Ailwampio'r Siambr | £0.261 miliwn | £0.261 miliwn |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Tanwariant ar gyfer 2016-17** | **£1.954 miliwn** | |
| Gwariant gwirioneddol ar brosiectau | | **£2.01 miliwn** |
| **Cyfanswm y Tanwariant gwirioneddol ar gyfer 2016-17** | | **£1.705 miliwn** |

| Gwahaniaeth | | -£0.301 |
|---|---|---|

Roedd y gwahaniaeth hwn yn bennaf am fod gwariant gan Aelodau Cynulliad ym mis Mawrth 2017 llawer yn uwch na'r hyn a ragwelwyd. Ni ragwelwyd y gwariant hwn ac roedd yn ymwneud yn bennaf ag anfonebau 2016-17 a hawliadau a gyflwynwyd ac a dalwyd ym mis Ebrill 2017.

Ni chafodd y gwahaniaeth effaith arian parod yn 2016-17 ac ni ohiriwyd unrhyw wariant arall gan fod tanwariant o gyllideb dibrisiant y Comisiwn (eitem arall nad yw'n arian parod) ar gael i dalu am y gorwariant hwn.

**Adnewyddu Llawr Daear Tŷ Hywel**

Rhoddwyd gwybod i chi ym mis Mawrth y rhagwelwyd gwariant o £1.185 miliwn ar adnewyddu'r llawr daear. Y gost derfynol, yn unol â (b) uchod, oedd £1.211 miliwn. Yn nhabl B isod, mae dadansoddiad manwl o'r £1.211 miliwn, yn unol â'ch cais, a dadansoddiad o'r costau TGCh £0.224 miliwn a ysgwyddwyd yn 2016-17 fel rhan o'r gwaith ar y llawr daear. Mae Tabl B hefyd yn dangos y costau a ragwelir ar gyfer 2017-18, yn unol â'ch cais.

Nid oedd yr angen busnes am ystafelloedd pwyllgor ychwanegol wedi dod i'r amlwg eto pan roedd gofyniad y gyllideb ar gyfer 2016-17 yn cael ei baratoi (haf/hydref 2015). Penderfynwyd ychwanegu pwyllgorau ychwanegol yn 2016-17. Felly, nid oedd modd i'r Comisiwn dynnu sylw at y gwariant hwn fel rhywbeth a fyddai'n galw am adnoddau sylweddol yng nghyllideb ddrafft 2016-17.

Y prif sbardun ar gyfer gwaith adnewyddu hwn oedd penderfyniad y Pwyllgor Busnes/y Cynulliad i greu dau bwyllgor polisi ychwanegol ac ehangu'r wythnos fusnes e.e. mae'n arferol bellach i bedwar pwyllgor fod yn eistedd ar yr un pryd.

Yn y Pedwerydd Cynulliad, defnyddiwyd Ystafell Bwyllgora 4 ar y llawr daear yn Nhŷ Hywel fel opsiwn wrth gefn pan fyddai tri phwyllgor yn cyfarfod ar yr un pryd. Fodd bynnag, roedd yr ystafell hon yn gyfyngedig ac nid oedd wedi'i threfnu yn y ffordd orau i'w defnyddio'n rheolaidd. Gyda'r cynnydd yn nifer y pwyllgorau ni ellid dibynnu arni mwyach fel opsiwn wrth gefn pan fyddai pedwar pwyllgor yn cyfarfod. Nid oedd ychwaith gyfleusterau aros/lluniaeth y tu allan i'r ystafell ar gyfer yr Aelodau a'r tystion.

## Tabl B – Cyfanswm costau gwirioneddol y llawr daear wedi'i rannu rhwng 16/17 a 17/18

| **Prosiect Ystafelloedd Pwyllgora 4 a 5** | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Eitem** | **16/17** | **17/18** |
| **Gwaith galluogi** | | |
| Gwaith adeiladu | £49,106 | £0 |
| Llogi cabanau dros dro | £11,295 | £0 |
| Ffioedd rheoli prosiect | £3,120 | £0 |
| **Is-gyfanswm** | **£63,522** | **£0** |
| **Ystafelloedd pwyllgora** | | |
| Gwaith adeiladau yn cynnwys parwydydd symudol, gwydr, bleindiau a drysau | £438,794 | £20,000 |
| Gwaith trydanol | £226,040 | £0 |
| Gwaith mecanyddol | £153,571 | £0 |
| Ffioedd rheoli prosiect gan gynnwys gwaith ar adeiladau'r adran ddiogelwch | £14,976 | £0 |
| Dodrefn | £73,286 | £92,213 |
| Costau amrywiadau | £0 | £28,745 |
| **Is-gyfanswm** | **£906,667** | **£140,959** |
| **Adeiladau'r adran ddiogelwch** | | |
| Gwaith adeiladu yn cynnwys coridor gwydr | £152,253 | £0 |
| Gwaith trydanol | £4,909 | £0 |
| Gwaith mecanyddol | £58,824 | £0 |
| Dodrefn | £24,706 | £0 |
| **Is-gyfanswm** | **£240,691** | **£0** |
| **TGCh** | | |
| Camerâu, cyfarpar rheoli, cyfieithu ar y pryd, ceblau | £174,468 | £97,905 |
| Rheoli ystafelloedd ac arwyddion | | £89,415 |
| Fideogynadledda | | £55,070 |
| Llafur, teithio a chynhaliaeth, rheoli prosiect | | £113,875 |
| Cost y rhwydwaith TGCh | £21,986 | |
| Costau ychwanegol CBRE | £27,687 | £4,481 |
| **Is-gyfanswm** | **£224,141** | **£360,746** |

| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **16/17** | **17/18** |
|---|---|---|
| Gwaith galluogi | £63,522 | £0 |
| Ystafelloedd pwyllgora | £906,667 | £140,959 |
| Adeiladau'r adran ddiogelwch | £240,691 | £0 |
| **Is-gyfanswm – gwaith** | **£1,210,880** | **£140,959** |
| TGCh | £224,141 | £360,746 |
| **Cyfanswm** | **£1,435,020** | **£501,705** |

Er mwyn cefnogi gofynion y Pumed Cynulliad, adolygodd Comisiwn y Cynulliad y cyfleusterau sydd ar gael, o ran yr anghenion busnes ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor ac o ran opsiynau ar gyfer defnyddio swyddfeydd a mannau cyfarfod yn fwy hyblyg. Roedd wedi dod yn amlwg y byddai'n ormod o risg parhau am unrhyw gyfnod o amser heb gyfleusterau pwyllgor digonol. Roedd y risgiau'n cynnwys:

- y risg y byddai'r cynnydd yng ngwaith y pwyllgorau ers yr etholiad yn golygu nad oedd opsiwn wrth gefn pe na bai modd defnyddio un o'r ystafelloedd pwyllgora.
- mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau y darperir yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad (Deddf Llywodraeth Cymru 27(5)). Mae'n rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â gofynion a nodir yn y Rheolau Sefydlog a Deddf Llywodraeth Cymru hefyd, er enghraifft o ran mynediad y cyhoedd i drafodion. Pe na baent yn darparu ystafelloedd pwyllgor ychwanegol, roedd perygl na fyddai'r Comisiwn yn gallu cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r Rheolau Sefydlog hyn.

Nodwyd y risgiau hyn yn nhymor yr haf/hydref 2016. Cyflwynwyd achos busnes i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ym mis Tachwedd 2016 yn argymell y dylid adnewyddu'r llawr daear. Ar ôl craffu ar y dewisiadau, cymeradwyodd y Bwrdd y gwariant hwn. Cafodd y Comisiwn wybod am y prosiect hwn, er bod y swm arian o fewn terfyn arian dirprwyedig y Prif Weithredwr o £5 miliwn, oherwydd proffil y prosiect.

Cynyddwyd terfyn arian dirprwyedig y Prif Weithredwr o £1 miliwn i £5 miliwn ym mis Mehefin 2016 er mwyn adlewyrchu'r terfynau arian dirprwyedig mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus ac, yn benodol, i sicrhau bod trefniadau Comisiwn y Cynulliad yn cyd-fynd yn fwy â threfniadau Senedd yr Alban. Mae Corff Corfforaethol Senedd yr Alban wedi dirprwyo'r awdurdod i'w Clerc a Phrif Weithredwr gymeradwyo gwariant cyfalaf o hyd at £10 miliwn a dyfarniadau contract o hyd at £5 miliwn.

Darparodd y prosiect:

- dwy ystafell bwyllgor sydd wedi'u trefnu'n briodol ac yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol yn lle un ystafell annigonol;
- cyfleusterau aros/lluniaeth ar gyfer Aelodau a thystion;
- ystafell gyfarfod ychwanegol; a
- waliau symudol er mwyn caniatáu i'r mannau gael eu defnyddio'n hyblyg ar gyfer ystod o ddibenion gwahanol heblaw am gyfarfodydd pwyllgor.

Sicrhawyd bod digon o arian ar gael i'r prosiect drwy ddyrannu tanwariant yn ymwneud â'r arian a dynnwyd i lawr ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, a thrwy flaenoriaethu prosiectau buddsoddi e.e. gohirio nifer o brosiectau mawr gan yr adran Ystadau a'r adran TGCh.

Drwy ddefnyddio'r cronfeydd hyn, roedd modd dechrau'r gwaith yn ystod 2016-17 gyda'r nod o'i gwblhau yn fuan ar ôl toriad y Pasg 2017 (dros ddwy flwyddyn ariannol), gan fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd uchod cyn gynted â phosibl. Pe na bai'r tanwariant wedi bod ar gael, y drefn fyddai ystyried cyllideb atodol ym mis Chwefror neu fis Mehefin, gan ohirio'r prosiect yn sylweddol.

Nid oedd angen cyllideb atodol gan fod arian wedi'i ddyrannu ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau heb gael ei ddefnyddio, ac felly roedd yr arian hwnnw ar gael i'r Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddarparu ar gyfer gwariant ar Benderfyniadau yn ei gyllideb a bydd unrhyw danwariant yn parhau ar gael i'r Comisiwn gyflawni ei amcanion strategol.

Gobeithio fod y wybodaeth hon yn egluro:

- bod penderfyniad y Pwyllgor Busnes yn rhy hwyr i'r Comisiwn gynnwys y gwariant hwn yng nghyllideb 2016-17 a chyllideb 2017-18 ar ôl hynny;
- bod y Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi craffu ar y broses; a
- bod y Comisiwn wedi cael gwybod am y gwariant.

Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17. Bydd y cyfrifon yn cael eu cyflwyno ym mis Gorffennaf a disgwylir i'r sesiwn graffu ddigwydd ym mis Medi.

Rhoddwyd mwy o dryloywder yn natganiad y Llywydd i'r Aelodau ym mis Tachwedd 2016:

> "Rhoddodd y Comisiynwyr hefyd ystyriaeth i waith archwiliadol i sicrhau bod ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd yn datblygu i gyd-fynd â gwaith y Cynulliad.
>
> O ystyried y cynnydd yng ngweithgarwch pwyllgorau ers yr etholiad, cytunodd y Comisiynwyr i ad-drefnu llawr gwaelod Tŷ Hywel. Bydd hyn yn golygu bod gan y Cynulliad bum ystafell bwyllgora â'r holl offer angenrheidiol - tair yn y Senedd a dwy yn Nhŷ Hywel. Bydd yr ystafelloedd newydd yn barod o ddechrau tymor yr haf."

**Effaith yn 2017-18**

Mae bodloni'r ddyletswydd statudol a mynd i'r afael â'r risgiau uchod wedi cael effaith sylweddol ar y sefyllfa ariannol ar gyfer 2017-18. Bydd tua £0.5 miliwn yn cael ei wario ar ystafelloedd pwyllgora yn 2017-18, gan leihau'r arian sydd ar gael ar gyfer y prosiectau buddsoddi a fyddai'n mynd yn eu blaen yn ddelfrydol.

Mae'r gwaith o uwchraddio system teledu cylch cyfyng yr ystâd hefyd yn effeithio ar 2017-18 hefyd, ynghyd â'r disgwyliad y bydd angen arian ddiwedd 2017-18 i symud ymlaen â nod y Comisiwn o sicrhau y gellir diwallu anghenion o ran adeiladau yn y dyfodol.

O ganlyniad, mae'r sefyllfa gyllidebol eleni yn hynod o dynn a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch staffio a'r prosiectau a fyddai'n mynd yn eu blaen yn ddelfrydol.

Er gwaetha'r pwysau ychwanegol hyn, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau alldro ariannol o fewn 0.5 y cant o'n cyllideb ar gyfer 2017-18. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at ohirio eitemau o wariant sylweddol tan 2018-19. Bydd y pwysau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllideb y Comisiwn ar gyfer 2018-19, sydd i'w drafod gan y Pwyllgor ym mis Hydref.

Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r farn a fynegodd y Pwyllgor y llynedd pan nododd na fyddai modd rhagweld y pwysau ar y Cynulliad yn y dyfodol a bod angen hyblygrwydd o ran anghenion cyllidebol y Comisiwn yn y dyfodol. Fel y nodwyd eisoes, mae'r hyblygrwydd hwn wedi galluogi'r Comisiwn i ymateb yn effeithiol i anghenion y Cynulliad.

## Y tanwariant a ragwelir o ran Penderfyniad 2017-18

Ar hyn o bryd, disgwylir tanwariant o £1.05 miliwn o ran Penderfyniad 2017-18, yn seiliedig ar amcangyfrifon cynnar o wariant Aelodau yn ystod y misoedd sy'n weddill o 2017-18.

Adolygir hyn bob mis, wrth i dueddiadau gwariant ddechrau dod i'r amlwg, yn enwedig o ran costau staff Aelodau a chostau swyddfa.

Dyma'r prosiectau posibl a nodwyd ar gyfer y tanwariant hwn (yn amodol ar achosion busnes):

### Tabl C - Sut y rhagwelir defnyddio'r Tanwariant o ran Penderfyniad 2017-18

| Cymeradwywyd eisoes gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol: | |
|---|---|
| **Disgrifiad** | **Swm** |
| Cwblhau'r gwaith o adnewyddu'r llawr daear | £0.141 miliwn |
| Cwblhau TGCh Ystafelloedd Pwyllgora | £0.361 miliwn |
| Cwblhau Prosiect Cofnod y Trafodion | £0.052 miliwn |
| Cwblhau Prosiect y Swyddfa Gyflwyno | £0.032 miliwn |
| Cyngor cyfreithiol ynghylch Diwygio Etholiadol a deddfwriaeth ddrafft | £0.050 miliwn |
| Cwblhau prosiect teledu cylch cyfyng | £0.328 miliwn |
| **Is-gyfanswm** | **£0.964 miliwn** |

| **Achosion busnes a ddisgwylir yn 2017-18** | |
|---|---|
| Senedd Ieuenctid | £0.050 miliwn |
| Newid caledwedd TGCh (rhan o raglen dreigl ehangach) | £0.036 miliwn |

| | |
|---|---|
| Is-gyfanswm | £0.086 miliwn |
| Cyfanswm | £1.050 miliwn |

Mae Tabl C yn dangos bod gan y Comisiwn nifer sylweddol o brosiectau y bydd angen eu cyllido yn 2017-18. Mae'r prosiectau hyn yn hanfodol wrth fodloni ein rhwymedigaethau statudol, sicrhau gwytnwch a chyflawni amcanion strategol y Comisiwn a nodwyd ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

Fel y gwelir uchod, nid yw'r Bwrdd Taliadau wedi cymeradwyo nifer o'r prosiectau hyn eto. Dim ond wrth i'r lefel wirioneddol o danwariant ddod yn gliriach y caiff y prosiectau hyn eu cymeradwyo.
Dim ond eitemau hanfodol a gaiff eu cymeradwyo, yn dilyn gwaith craffu a blaenoriaethu gan y Bwrdd Taliadau.

Bydd angen cyllid yn 2017-18 ar eitemau ychwanegol nad ydynt wedi eu cynnwys uchod, fel gwariant ychwanegol ar TGCh a chyfleusterau, ac ni fydd yr eitemau hynny'n symud ymlaen oni fydd tanwariant ychwanegol ar gael i'w cyllido. Os na fydd hynny'n digwydd, byddant yn cael eu gohirio tan 2018-19 yn amodol ar y cyllid a'r blaenoriaethau eraill ar y pryd. Mae rhagor o wybodaeth am wariant ar Ddiogelwch, TGCh a Rheoli Ystadau a Chyfleusterau ar ddiwedd yr Atodiad hwn.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

## Gwariant Diogelwch 2016-17

Cafodd gwariant sylweddol ar ddiogelwch effaith ar flwyddyn ariannol 2016-17. Mae Tabl A yn nodi gwariant o £48,000 ar wella diogelwch swyddfeydd etholaethol yr Aelodau. Roedd y gwariant hwn yn cynnwys eitemau fel drysau newydd, teledu cylch cyfyng, botymau panig, larymau, gwydr barugog, goleuadau diogelwch ac ati.

At hynny, dechreuodd y gwaith ar system teledu cylch cyfyng newydd ar ystâd Bae Caerdydd yn 2016-17. Daeth hynny i gyfanswm o £473,000 yn 2016-17 a £189,000 yn 2017-18. Mae gwelliannau diogelwch eraill yn cynnwys sganwyr newydd ar gyfer yr ystâd a gwelliannau Cadw'n Ddiogel i wella cadernid a diogelwch y prif allanfeydd.

## Blaenoriaethau'r gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau 2017-18

Mae gwariant wedi'i glustnodi ar gyfer yr eitemau a ganlyn o waith Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn sefyllfa ariannol 2017-18. Nid yw'r Bwrdd Taliadau wedi cymeradwyo'r rhain eto. Mae'r pedair eitem yn nhrefn blaenoriaeth, yn bennaf ar sail cydymffurfiaeth statudol, iechyd a diogelwch, a pharhad busnes.

| Eitem | Categori | Cost |
|---|---|---|
| Byrddau Dosbarthu Trydanol Cam 2 (C1s) | Cylch Bywyd hanfodol | £28,800 |
| Gwelliannau i lifftiau'r Senedd a'r Pierhead | Cydymffurfiaeth statudol/cylch bywyd hanfodol | £33,693 |
| Camau adfer asesu risg dŵr Tŷ Hywel | Cydymffurfiaeth statudol | £16,320 |
| Lifftiau Tŷ Hywel – newid rhaffau 1, 2, a 3 | Cydymffurfiaeth statudol | £54,450 |
| | | £133,263 |

## Blaenoriaethau TGCh 2017-18

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y blaenoriaethau TGCh cyfredol ar gyfer 2017-18, o ganlyniad i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Comisiwn yn 2017-18 ac efallai y bydd yn rhaid gohirio nifer o eitemau tan 2018-19. Mae'r blaenoriaethau presennol yn ymwneud â blaenoriaethau newydd ac eitemau a ohiriwyd o 2016-17.

Mae'r Bwrdd Taliadau wedi cymeradwyo £100,000 o wariant ar newid caledwedd ac mae'n adolygu sefyllfa ariannol 2017-18 bob pythefnos. Bydd cyllid pellach yn cael ei ryddhau ar gyfer gwariant TGCh os bydd arian ar gael ac os bernir bod yr eitemau hynny'n flaenoriaeth i'r Comisiwn cyfan.

| **Prosiectau TGCh ar y Blaengynllun Gwaith ar gyfer 2017-18** | **Blaenoriaethau Presennol** | **Cymeradwywyd gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol** |
|---|---|---|
| Trawsnewid i Wasanaethau Cwmwl | £120,000 | |
| Newid caledwedd bwrdd gwaith | £344,000 | £100,000 |
| Costau traul caledwedd | £25,000 | |
| Gwaith tanddaearôl BT | £11,000 | |
| Seibr ddiogelwch | £32,000 | |
| Trwyddedau Adobe | £6,000 | |
| SeneddTV | £40,000 | |
| Rhaglen newydd yn lle Caseworker | £75,000 | |
| | **£653,000** | **£100,000** |